



Children in Wales Plant yng Nghymru

Adroddiad blynyddol a chyfrifon 2018-19



- Cynrychioli'r sector
- Ymgynghori â'n haelodau
- Hyfforddiant arbenigol
- Ymgysylltu â phlant a phobl ifanc
- Dylanwadu ar bolisi ac arfer
- Datblygu rhwydweithiau cryf
- Codi ymwybyddiaeth y cyhoedd a'r proffesiwn
- Teuluoedd a gweithlu mwy gwybodus

Croeso



Plant yng Nghymru yw'r corff ymbarél cenedlaethol ar gyfer pobl sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc yng Nghymru. Ein nod craidd yw cyfrannu at wneud Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn realiti yng Nghymru.

Mae Plant yng Nghymru yn gorff aelodaeth sy'n darparu gwasanaethau o'r radd flaenaf gyda'r nod o roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau i'w aelodau a hwyluso cyd-ymatebion, gan gynnwys deunyddiau gwybodaeth, hyfforddiant a digwyddiadau. Rydym yn elusen gofrestredig ac yn gorff annibynnol, anllywodraethol.

Rydym yn cael ein hariannu dan Grant Datblygu Plant

a Theuluoedd oddi wrth Lywodraeth Cymru i leihau anghydraddoldebau mewn iechyd, addysg a chanlyniadau economaidd i blant sy'n byw mewn tlodi, gan weithio i hysbysu a galluogi plant a phobl ifanc i'w lleisiau gael eu clywed gan y sawl sy'n gwneud penderfyniadau, a hynny drwy hwyluso cyfranogiad ystyrllon.

Gweithiwn hefyd i hysbysu teuluoedd a'r gweithlu, a dylanwadu a chyfrannu at ddatblygiad polisiau ac arferion.

Yn ystod 2018-19, mae Plant yng Nghymru wedi bod yn gweithio'n galed i sicrhau bod lleisiau plant yn cael eu clywed ar faterion sydd o bwys iddynt. Mae hyn wedi cynnwys ymgynghori ar faterion sy'n ymwneud â Brexit a sefydlu Bwrdd Iechyd Meddwl Ieuenctid, gan edrych ar ymagwedd holistig at lesiant ac iechyd meddwl. Yn ogystal rydym wedi hwyluso Aelodau'r Senedd Ieuenctid unwaith eto i gymryd rhan mewn trafodaethau cenedlaethol.

Rydym wedi parhau i ddatblygu'n meysydd ymchwil a pholisi, gyda gwaith ar dlodi, anabledd, rhianta, hawliau plant, iechyd a gofal cymdeithasol yn feysydd pwysig.

Mae'r ddogfen hon yn nodi'n fanylach y gwaith rydym wedi ei wneud yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Hoffem ddiolch i'n holl aelodau a'r bobl rydym wedi gweithio gyda hwy am eich mewnbwn a'ch cefnogaeth.

Cynnwys

Ymgysylltu â phlant a phobl ifanc	3-4	Plant, pobl ifanc, teuluoedd a gweithlu mwy gwybodus	10
Teuluoedd a gweithlu wedi eu cysylltu'n well	5	Cynadleddau a digwyddiadau	11-12
Dylanwadu ar arfer, datblygiad polisi ac ymchwil	6-7	Hyfforddiant	13
Cynrychiolaeth ar draws y sector	8	Llywodraethu	14
Ymateb i ymgynghoriadau ac ymholiadau	9	Aelodaeth/Crynodeb ariannol	15

Plant yng Nghymru 25 Windsor Place Caerdydd CF10 3BZ
Ystafell 101, Y Ganolfan Reoli, Prifysgol Bangor, LL57 2DG
Ffôn: 029 2034 2434 E-bost: info@childreninwales.org.uk
Gwefan: www.childreninwales.org.uk
Elusen Gofrestredig Rhif: 1020313 Cwmni Cofrestredig Rhif: 2805996



Children in Wales
Plant yng Nghymru

Ymgysylltu â phlant a phobl ifanc

Cymru Ifanc yw menter gyfranogiad Plant yng Nghymru, sy'n cael ei hariannu o dan Grant Cyflenwi Plant a Theuluoedd Llywodraeth Cymru. Mae'r gwaith yn cael ei lywio gan Fwrdd Prosiect Cymru Ifanc, a chan y blaenoriaethau a nodir fel meysydd o bwys drwy Fforymau Ieuenctid awdurdodau lleol.

Yn ystod 2018-19, parhaom i roi llais i bobl ifanc drwy ddigwyddiadau ymgysylltu ac ymgynghori. Roedd pigion ein gwaith yn cynnwys:

Barn plant a phobl ifanc ar Brexit

Gofynnodd Llywodraeth Cymru i Cymru Ifanc ddarganfod beth mae plant a phobl ifanc yn meddwl am Brexit, a'u gobeithion ac ofnau ynghylch y dyfodol. Gwnaethom ymgynghori â phobl ifanc trwy:

- 39 gweithdy gyda mwy na 650 o blant a phobl ifanc
- Twitter
- Instagram
- Arolwg ar-lein
- Digwyddiad Amser Holi

Cododd y bobl ifanc bryderon nad oedd eu lleisiau'n cael eu clywed yn y dadleuon am Brexit, gan na fu pleidlais ganddynt hwy, ac nad oeddent yn cael eu cynnwys yn y trafodaethau. Codant faterion am eu dyfodol eu hun o ran gweithio a theithio, astudio tramor, yr amgylchedd, materion ariannol, cydlyniant cymunedol, a'r iaith Gymraeg.

Yn dilyn y gwaith hwn, cynhyrchom adroddiad ar gyfer Llywodraeth Cymru, ffilm animeiddiedig fer a gafodd ei chyd-gynhyrchu gyda phobl ifanc, a fideo o'r digwyddiad Amser Holi. Mae'r rhain ar gael o wefan Plant yng Nghymru yn <https://bit.ly/2r1wD4u>.

Senedd Ieuenctid y DU

Hwylusodd Cymru Ifanc Aelodau Cymru o Senedd Ieuenctid (ASI) i gymryd rhan yn nhrafodaeth flynyddol Senedd Ieuenctid y DU yn Nhŷ'r Cyffredin eleni. Mae Senedd Ieuenctid yn rhoi cyfleoedd i bobl 11-18 oed ddefnyddio eu llais etholedig i greu newid cymdeithasol trwy gynrychiolaeth ac ymgrychu ystyrlon.

Yn y digwyddiad yn Nhachwedd bob blwyddyn, mae Aelodau'r Senedd Ieuenctid yn trafod materion o bwys, a benderfynir drwy bleidlais o'r enw Gwneud Eich Marc. Eleni, roedd y pynciau'n cynnwys pleidleisiau'n 16 oed, iechyd meddwl, trechu digartrefedd, tâl cyfartal gwaith cyfartal a rhoi diwedd ar droseddau cylllell. Trefnodd Cymru Ifanc bleidlais Gwneud Eich Marc yng Nghymru, yn ogystal â chynnal trafodaethau enghreifftiol i baratoi'r sawl a oedd yn mynychu'r digwyddiad. Cymerodd 1.1 miliwn o bobl ifanc ran yn ymgrych Gwneud Eich Marc eleni gyda mwy na 54,000 o bleidleisiau yng Nghymru – ein nifer uchaf erioed!



Eleni gwelwyd dathlu 100 mlynedd o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1918 pan roddwyd y bleidlais i fenywod. Siaradodd pobl ifanc am sut mae'r Ddeddf hon wedi newid bywydau a sut olwg fydd ar gydraddoldeb yn y dyfodol.

Roeddem yn falch iawn i Wobr Paul Boskett am areithiau eithriadol gael ei dyfarnu i un o ASI Cymru, Samuel Taylor, yr Aelod dros Flaenau Gwent, ynghyd â sawl ASI arall. Enillodd Samuel y wobr am ei araith ar ostwng yr oedran pleidleisio i 16.

Bwrdd Iechyd Meddwl a Llesiant Emosiynol

Mae Llesiant Emosiynol ac Iechyd meddwl wedi cael ei nodi gan bobl ifanc fel blaenoriaeth i Cymru Ifanc. Rydym ni hefyd yn bwydo i mewn i raglen Gyda'n Gilydd dros Blant a Phobl Ifanc ar y pwnc hwn.

Eleni, mae Cymru Ifanc wedi sefydlu Bwrdd Ieuenctid newydd i weithio gyda thîm Dull Ysgol Gyfan Llywodraeth Cymru a rhaglen Gyda'n Gilydd dros Blant a Phobl Ifanc (T4CYP) i helpu i siapio gwasanaethau iechyd meddwl a llesiant emosiynol yng Nghymru. Gwnaeth mwy na 70 o bobl ifanc o bob rhan o Gymru gais am le ar y Bwrdd a chyfarfu'r ymgeiswyr llwyddiannus am y tro cyntaf ym mis Ionawr. Mae'r bobl ifanc rhwng 13 a 24 blwydd oed ac yn cwmpasu 11 o ardaloedd Awdurdodau Lleol.

Yn y cyfarfod cyntaf yn Ionawr 2019, cafodd y cyfranogwyr gyfle i archwilio iechyd meddwl, salwch meddwl a llesiant gyda Dr David Williams, Cadeirydd Bwrdd Ymddiriedolwyr Plant yng Nghymru a'r Cyfarwyddwr Adrannol dros Deuluoedd a Therapiau yng Ngwent a Chynghorydd CAMHS i Lywodraeth Cymru.

Cafodd trafodaethau eu cynnal hefyd ar ddull ysgol gyfan ymdrin â llesiant a pha olwg ddylai fod arno. Bydd gwaith y Bwrdd yn parhau i ddatblygu yn y flwyddyn nesaf, gan gynnwys cyfarfodydd pellach y Bwrdd.



Siarter Cyfranogiad Cenedlaethol

Datblygwyd y Siarter Cyfranogiad Cenedlaethol gan Cymru Ifanc ar ran Llywodraeth Cymru yn ystod 2017. Mae'r Siarter yn ddatganiad o fwriad bod y sefydliadau partneriaeth yn gweithio yn unol â'r Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol Plant a Phobl Ifanc. Mae wedi ei seilio ar dri philer UNCRC - Amddiffyniad, Darpariaeth a Chyfranogiad. Bydd y Siarter hefyd yn amlygu arferion cyfranogi lleol a chipio hysbysrwydd sy'n cefnogi adrodd priod Gynlluniau Llesiant yn y dyfodol.

Bob blwyddyn bydd archwiliad sampl yn cael ei gynnal i brofi cydymffurfedd, ac mae'r Siarter yn para am ddwy flynedd ar y mwya. Hyd yma mae'r sefydliadau canlynol sydd wedi cofrestru am y Siarter yn cynnwys: Cyngor Sir Powys; Ysgol Gynradd Fochriw; Gwasanaeth Ieuenctid Castell-nedd Port Talbot; Ysgol Gynradd Bryn Awel; The Hive; a'r Bartneriaeth Teuluoedd.

Cynhadledd Cymru Ifanc

Mynychodd mwy nag 80 o bobl ifanc Gynhadledd Flynyddol Cymru Ifanc yn Wrecsam ar 30 Mawrth 2019, a gafodd ei chynnal gan Fwrdd Prosiect Cymru Ifanc. Roedd Cymru Ifanc wrth ei fodd i ddathlu blwyddyn arall o sicrhau bod lleisiau pobl ifanc yn cael eu clywed gan y sawl sy'n gwneud penderfyniadau yng Nghymru.

Yn y digwyddiad, amlygom ni'r gwaith mae Cymru Ifanc wedi ei ddatblygu gyda phlant a phobl ifanc yn y flwyddyn ddiwethaf, sy'n canolbwyntio ar Brexit, y dull ysgol gyfan at iechyd meddwl, a gwaith sy'n cael ei wneud gyda Senedd Ieuenctid y DU. Roedd pobl ifanc hefyd yn gallu cymryd rhan mewn gweithdai a dod i adnabod pobl eraill o bob rhan o Gymru.

Hefyd cymerodd pobl ifanc ran mewn gweithdai ar faterion pwysig fel: digartrefedd; Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol; Tlodi Misglwyf; y cwricwlwm newydd; a phleidleisiau'n 16 oed.

Uwchgynhadledd Ieuenctid Iechyd y Cyhoedd

Cyflwynodd Cymru Ifanc, gan weithio mewn partneriaeth ag Iechyd Cyhoeddus Cymru, ddwy gynhadledd, y naill yn Llanrwst ar 24 Tachwedd i 40 o bobl ifanc, a'r llall yng Nghaerdydd ar 1 Rhagfyr 18 i 60 o bobl ifanc. Yn y digwyddiadau hyn rhannodd Cymru Ifanc ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru hefyd ar unigrwydd ac ynysigrwydd a'r isafbris am uned alcohol yn ogystal â hyrwyddo'r Bwrdd Ieuenctid Iechyd Meddwl a Llesiant Emosiynol a oedd newydd ei greu i bobl ifanc a gymerodd ran yn y diwrnod.

Hefyd gweithiodd Cymru Ifanc mewn partneriaeth ag Iechyd Cyhoeddus Cymru i ddatblygu'r Datganiad Ansawdd Blynnyddol. Mae'r mewnbyn gan Cymru Ifanc wedi cael ei gydnabod yn genedlaethol, gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r bobl ifanc yn ennill categori 'Championing the Public' yng Ngwobrau Cenedlaethol y Rhwydwaith Profiad Cleifion (PENNA). PENNA yw'r rhaglen wobrau gyntaf, a'r unig un, i gydnabod arfer gorau yn y profiad o ofal ar draws pob agwedd ar iechyd a gofal cymdeithasol yn y Deyrnas Unedig.

Ymatebion i ymgynghoriadau

Yn ystod y flwyddyn, ymgynghorodd Cymru Ifanc â phlant a phobl ifanc hefyd i gyfrannu at ymatebion i ymgynghoriadau. Mae hyn yn caniatáu i'w barn effeithio'n uniongyrchol ar lunio polisi yn Llywodraeth Cymru. Roedd yr ymgynghoriadau'n cynnwys Isafbris am Alcohol; Trechu unigrwydd ac ynysigrwydd; adnewyddu'r canllawiau gwrthfwlio Parchu Eraill; a'r cwricwlwm newydd yng Nghymru.

"Y rhan orau oedd y drafodaeth gan i mi gael siarad am rywbeth rwy'n angerddol amdano gyda phobl angerddol eraill."

Aelod o Fwrdd Ieuenctid Iechyd Meddwl a Llesiant Emosiynol Cymru Ifanc

Teuluoedd a gweithlu wedi eu cysylltu'n well



Cyfarwyddwr Polisi, Sean O'Neill, yn rhoi cyflwyniad ar faterion hawliau plant sy'n ymwneud â Chymru

Mae Plant yng Nghymru yn hwyluso rhwydweithiau sy'n dod â gweithwyr proffesiynol ynghyd i drafod materion polisi ac ymarfer. Trwy'r rhwydweithiau hyn rydym yn hysbysu aelodau am ddatblygiadau newydd, yn rhannu arfer da ac yn datblygu safbwyntiau priodol ar ddatblygiadau polisi. Yn 2018-19, ymhlith y grwpiau a'r rhwydweithiau a gynhaliom, roedd:

Cyngor Polisi Plant yng Nghymru

Cyngor Polisi Plant yng Nghymru yw'r grŵp aml-asiantaeth sy'n cynnig cyfle i rannu gwybodaeth, a blaenoriaethu camu cydweithredol i Plant yng Nghymru symud yn eu blaen.

Grŵp Swyddogion Polisi'r Trydydd Sector

Mae Grŵp Swyddogion Polisi'r Trydydd Sector yn cael ei hwyluso i nodi materion allweddol i'r sector a datblygu ymgrychoedd i ddylanwadu ar weithgarwch yng Nghymru.

Grŵp Monitro UNCRC Cymru

Mae Grŵp Monitro UNCRC Cymru yn gynghrair genedlaethol o asiantaethau anllwyodraethol ac academiaidd, gyda'r dasg o fonitro a hyrwyddo Confensiwn Y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yng Nghymru.

Rhwydwaith Darparwyr Eiriolaeth Plant a Phobl Ifanc Cymru Gyfan

Nod y Rhwydwaith hwn yw hyrwyddo gwaith partneriaeth a strategaethau datblygu rhwng sefydliadau mewn perthynas â gwaith eiriolaeth.

Cynghrair Anghenion Allweddol y Trydydd Sector (TSANA)

Plant yng Nghymru sy'n cadeirio Cynghrair Anghenion Allweddol y Trydydd Sector (TSANA). Mae hyn yn grŵp o gyrff gwirfoddol sy'n sy'n ceisio amddiffyn a hyrwyddo hawliau plant ag anghenion ychwanegol yng Nghymru.

Rhwydwaith Cydlynwyr Rhianta

Mae'r Rhwydwaith Cydlynwyr Rhianta ar gyfer y sawl sydd â rôl gydlyn strategol cymorth rhianta yn eu Hawdurdod Lleol. Mae'n rhoi cyfle i gydlynwyr rannu syniadau, polisi ac ymchwil â'u cydweithwyr.

Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant Cymru

Mae Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant Cymru yn glymblaid o sefydliadau sy'n ymwneud â thlodi plant. Mae'n lobio dros bolisiau ar bob lefel llywodraeth sy'n cyfrannu at ddileu tlodi plant yng Nghymru.

Grŵp Adolygu Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan (AWCPP)

Mae gan y Grŵp Adolygu AWCPP hwn fandad a chynrychiolaeth o holl Fyrddau Diogelu Plant Lleol a rhanbarthol Cymru ac asiantaethau partner i adolygu'r AWCPP. Yn ogystal mae'r grŵp yn cynhyrchu protocolau atodol ac arweiniadau ymarfer ar sail Cymru gyfan, ac yn cynnig llwyfan am rannu arfer da ledled Cymru.

Rhwydwaith Rheolwyr Dechrau'n Deg

Mae'r Rhwydwaith hwn yn cwrdd yn chwarterol, gan ddod â'r Rheolwyr Dechrau'n Deg ynghyd o'r 22 Awdurdod Lleol a Llywodraeth Cymru. Mae cyfarfodydd a gweithdai ychwanegol yn cael eu trefnu hefyd yn ôl yr angen.

Rhwydwaith Gweithwyr Gofalwyr Ifanc

Mae'r Rhwydwaith Gweithwyr Gofalwyr Ifanc yn rhannu ystyriaethau, pryderon ac yn cefnogi datblygiad arfer da. Yn ogystal, mae'n cefnogi Rhwydwaith Gofalwyr Ifanc sy'n cwrdd i nodi materion sydd o bryder ac mae ganddo'r cyfle i gyflwyno eu pryderon i'r Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol bob blwyddyn.

Grŵp Seneddol yr Holl Bleidiau dros Blant yng Nghymru

Mae Plant yng Nghymru yn gweithredu fel ysgrifenyddiaeth y Grŵp hwn am Blant yng Nghymru. Mae'r grŵp hwn yn dod ag Aelodau Seneddol ac Arglwyddi o Gymru ynghyd i drafod materion sydd heb eu datganoli.


Grŵp Trawsbleidiol ar Blant a Phobl ifanc

Mae Plant yng Nghymru yn gweithredu fel ysgrifenyddiaeth y Grŵp Trawsbleidiol ar Blant yng Nghymru. Mae'r grŵp hwn yn dod ag Aelodau'r Cynulliad a phartion â diddordeb ynghyd i drafod materion datganoledig pwysig.

Dylanwadu ar arfer, datblygu polisi ac ymchwil



Ymwneud yn fwy â Gofal Cymdeithasol:
Diweddariad prosiect i weithwyr proffesiynol



Canllawiau ar gyfer pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal



@ChildreninWales
www.childreninwales.org.uk

Hawliau plant

Mae hawliau plant yn greiddiol i waith Plant yng Nghymru wrth i ni ymdrechu i sicrhau eu bod yn cael eu cynnal yng Nghymru. Yn ystod 2018-19, parhaom i hwyluso Grŵp Monitro UNCRC, cynghrair genedlaethol sy'n cynnwys cyrff anllwydoraethol ac academyddion gyda'r nod o fonitro a hyrwyddo UNCRC yng Nghymru.

O flaen Diwrnod Trafodaeth Gyffredinol y Cenhedloedd Unedig, cyhoeddodd Plant yng Nghymru ymateb i ymgynghoriad Child Rights Connect (CRC) ar Amddiffynwyr Hawliau Dynol Plant.

Yr ymgynghoriad, The Views, Perspectives and Recommendations of Children Across the World oedd prif drafodaeth y dydd. Mae'n crynhoi ymatebion plant a phobl ifanc, gan gynnwys y rhai o Gymru.

Cyhoeddodd Plant yng Nghymru adroddiad yn dilyn cynhadledd Hawliau'r Plentyn (ROCK), a gynhaliwyd yn Rhagfyr 2018. Edrychodd y digwyddiad ar beth ddylai llywodraethau fod yn ei wneud i symud hawliau plant yn eu blaen, ynghyd â'r camau y gallai cyrff cymdeithas sifil eu cymryd i sefydlu hawliau plant yn eu holl waith.

Hefyd cynhyrchodd Sean O'Neill, Cyfarwyddwr Polisi yn Plant yng Nghymru, a Dr Simon Hoffman o Arsyllfa Cymru ar Hawliau Dynol Plant a Phobl Ifanc, adroddiad a edrychodd ar y cynnydd a wnaed ar hawliau plant yng Nghymru ers ymgorffori UNCRC yn neddfwriaeth y wlad. Cafodd yr adroddiad ei gomisiynu gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

Brexit

Yn ystod 2018-19, cynhaliodd Plant yng Nghymru raglen o waith yn ystyried goblygiadau Brexit i blant, gan ganolbwyntio ar hyrwyddo ac amddiffyn hawliau plant. Roedd hyn yn cynnwys cyhoeddi cyd-bapur briffio ar Brexit a Hawliau Plant, a hefyd cynnal cyfarfodydd Grŵp Trawsbleidiol a Seneddol ar Brexit yn ogystal ag ymgysylltu ar lefel y DU ac Ewrop. Cyhoeddodd Plant yng Nghymru Adroddiad Cynhadledd yn dilyn ein digwyddiad bord gron, sy'n pennu cyfres o argymhellion i Gymru sy'n cwmpasu prif ystyriaethau a phryderon gweithwyr proffesiynol a defnyddwyr gwasanaethau.

Ymunodd Plant yng Nghymru â chyrrff eraill hawliau plant ledled y DU i bwysu am fwy o ystyriaeth o'r materion a fydd yn effeithio ar blant a'r gwasanaethau sy'n eu cefnogi.

Rydym wedi galw hefyd am ymgorffori Siarter Hawliau Sylfaenol yr Undeb Ewropeaidd i mewn i Fil yr UE (Tynnu Allan). Rydym wedi parhau i ymgysylltu â swyddogion Llywodraeth Cymru a sefydliadau eraill trwy ein haelodaeth o Fforwm Cymdeithas Sifil Cymru, Cynghrair Plant y DU, Grŵp Monitro UNCRC Cymru ac Eurochild. Rydym wedi cyflwyno tystiolaeth i nifer o ymchwiliadau mewn perthynas â pharatoi pe bai'r DU yn ymadael â'r UE heb fargen, ac mae gennym bryderon o hyd am drefniadau ac arian yn y dyfodol ar ôl i'r DU ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.

Prosiect Cymryd Mwy o Ran mewn Gofal Cymdeithasol

Mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi Plant yng Nghymru dros dair blynedd i ddatblygu'r prosiect sy'n bwriadu cefnogi iechyd a llesiant plant sy'n derbyn gofal, plant a phobl ifanc anabl a gofalwyr sy'n berthnasau.

Rydym wedi gweithio gyda phobl ifanc 11-25 sydd â phrofiad o ofal i gyd-gynhyrchu cyfres o arweiniadau iechyd a llesiant i helpu pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal i gyrchu gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth. Mae'r arweiniadau'n trafod ystod o bynciau sy'n cynnwys ymarfer corff a maethiad, cynlluniau asesu iechyd, cyfarfodydd adolygu, arian a chyllidebu, a chysylltiad â'r teulu.

Mae'r prosiect wedi gweithio gyda phobl ifanc anabl i ddatblygu offer gweledol newydd, fideos ac adnoddau sy'n edrych ar gyfranogiad a hawliau. Cafodd y fideos hyn eu cynhyrchu a'u ffilmio gan bobl anabl ifanc a byddant yn rhan o'r pecyn cymorth sy'n cynorthwyo pobl anabl ifanc eraill ledled Cymru. Mae'r pecyn cymorth yn cynnwys cyfres o adnoddau sydd wedi cael eu datblygu ac sydd wrthi'n cael eu peilota mewn hyfforddiant a gweithdai.

Mae Plant yng Nghymru yn gweithio hefyd gyda gofalwyr sy'n berthnasau i ddod â nhw ynghyd i gefnogi ei gilydd. Erbyn hyn mae'r prosiect wedi sefydlu 16 o grwpiau cymorth cymheiriaid ledled Cymru. Rydym wedi gweithio hefyd gyda grwpiau i ddatblygu adnoddau fel llyfr stori i blant ynglŷn â gofal gan berthnasau, ar y cyd â Grŵp Cymorth Caerffili.

Tlodi

Mae Plant yng Nghymru yn gweithio i leihau lefelau tlodi plant a lliniaru'r effaith ar blant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi parhau i gydlyn Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant Cymru, a threfnu digwyddiadau cenedlaethol a rhanbarthol ynghyd â chynnal arolwg blynyddol am dlodi plant a theuluoedd.

Cynhaliodd Plant yng Nghymru, ochr yn ochr â Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant Cymru, adolygiad o ble mae tlodi plant yn eistedd o fewn y Cynlluniau Llesiant drafft a gyhoeddwyd gan Fyrddau Iechyd Lleol ledled Cymru.

Yn ogystal â'r gwaith hwn, mae Plant yng Nghymru yn gweithio bellach ar brosiect sy'n cael ei gefnogi gan Lywodraeth Cymru, o'r enw Pris Tlodi, sy'n edrych ar sut mae tlodi yn effeithio ar addysg a'r diwrnod ysgol. Cyfnod 1 y prosiect yw llunio cyfres o arweiniadau ar gyfer ysgolion am effaith tlodi ar y profiadau o ysgol o ddydd i ddydd, i ddisgyblion o deuluoedd incwm isel neu anafanteisiol.

Plant yng Nghymru a arweiniodd ar y cyflwyniad i alwad Rapporteur Arbennig y Cenhedloedd Unedig ar Dlodi Eithriadol a Hawliau Dynol am dystiolaeth ysgrifenedig o flaen ei ymweliad â'r DU yn Nhachwedd, a chynhaliodd gyfarfod yng Nghymru yn ystod ei ymweliad. Cynhwysodd yr ymchwiliad ffocws arbennig ar dlodi plant.

Mesur y Mynydd

Roedd Mesur y Mynydd yn brosiect Cymru gyfan a werthusodd effaith Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'n gydweithrediad rhwng y sector cyhoeddus, y trydydd sector a defnyddwyr gwasanaeth.

Gweithiodd Plant yng Nghymru gyda phobl ifanc sydd â phrofiad o'r system gofal cymdeithasol i gyfrannu at y prosiect. Rydym yn cael ein cynrychioli ar y Grŵp Llywio ar gyfer y prosiect, sy'n llywio sut mae'r gwaith yn cael ei gynnal, a'r is-grŵp cyfathrebu i help i hyrwyddo'r gwaith.

Rhannodd Mesur y Mynydd eu canfyddiadau â Llywodraeth Cymru, gweithwyr proffesiynol gofal cymdeithasol, cyfranogwyr a, thrwy eu gwefan a chyflwyniadau, â phoblyng Nghymru. Ym Medi 2018, cynhaliodd y prosiect Reithgor Dinasyddion yn Abertawe a edrychodd yn fanylach ar faterion allweddol sy'n codi o'r straeon.

Rhoi terfyn ar gosb gorfforol

Mae Plant yng Nghymru wedi ymgychu ers tro am ddileu cosbi plant yn gorfforol, ochr yn ochr ag ymgyrch 'Sdim Curo Plant! Cymru ac elusennau plant eraill.

Yn 2018, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai dileu amddiffyniad cosb resymol mewn achosion o ymosod ar blant yn rhan o raglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru.

Yn dilyn hyn, mae Plant yng Nghymru wedi ymateb i'r ymgynghoriad ar sut dylai hyn gael ei weithredu; ac erbyn hyn yn cefnogi'r newid deddfwriaethol drwy barhau i ymgyrchu ar y mater hwn, ynghyd â chefnogi cyfathrebu negeseuon ynghylch rhianta positif.

Cynrychiolaeth ar draws y sector



Plant yng Nghymru ac aelodau'r gymuned yn cwrdd â'r Athro Philip Alston, Rapporteur Arbennig ar Dlodi Eithafol a Hawliau Dynol, fel rhan o'i ymweliad â'r DY yn 2018.

Mae Plant yng Nghymru yn cael ei gynrychioli ar nifer o grwpiau ledled Cymru a'r DU sy'n caniatáu i ni gyfrannu at ddatblygiad polisi ac ymarfer.

Llywodraeth Cymru

- Cod Ymarfer Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Grŵp Arbenigol Iechyd Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Cyfarfod Gweithwyr Cyfranogiad Cymru Gyfan
- Bwrdd Partneriaeth Ystum a Symudedd Cymru Gyfan
- Grŵp Ymgynghorol Rhanddeiliaid CAFCASS Cymru
- Grŵp Ymgynghorol Cyflenwi CAMHS
- Grŵp Llywio Adolygu Marwolaethau Plant
- Grŵp Rhanddeiliaid Gofal Plant
- Grŵp Ymgynghorol Hawliau Plant
- Grŵp Cyfeirio Comisiynu Canlalwiau i Blant ag Anghenion Cymhleth
- Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gofal Parhaus
- Is-grŵp cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc Diwygio'r Cwricwlwm
- Grŵp Rhanddeiliaid Diwygio'r Cwricwlwm
- Cyfnewidfa arfer a gwybodaeth am daliadau uniongyrchol
- Fforwm Cydraddoldeb Anabledd
- Grŵp Cymorth Ymgynghorol Cydraddoldeb
- Grŵp Ymgynghorol Rhanddeiliaid Cynhwysiant Ariannol
- Grŵp Llywio byw yn annibynnol i bobl anabl
- Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Ganlyniadau i Blant
- Bwrdd Gweithrediadau Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Ganlyniadau i Blant
- Bwrdd Partneriaeth Gofal Cymdeithasol y Gweinidog
- Dull Cenedlaethol o Ddarparu Gwasanaethau Eiriolaeth Statudol
- Bwrdd Gofal Sylfaenol Cenedlaethol
- Is-grŵp gofal preswyl Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Ganlyniadau i Blant
- Bord Gron Arweinwyr Gofal Cymdeithasol
- Grŵp Technegol Gorchmynion Gwarchodaeth Arbennig
- Is-grŵp Niwro-ddatblygiadol T4CYP
- Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector

- Gweithgor Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector
- Bwrdd Rhaglen T4CYP
- Grŵp Ymgynghorol Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru
- Is-grŵp Pan Fydda i'n Barod

Grwpiau eraill (tu allan i Lywodraeth Cymru)

- Rhwydwaith Cyfarfod Grŵp Teuluoedd Cymru Gyfan
- Y Gynghrair Gofalwyr
- 'Sdim Curo Plant! Cymru
- Grŵp Rhanddeiliaid Comisiynydd Plant Cymru
- Grŵp Llywio Drill Fun and Friendship
- End Child Poverty UK
- Bwrdd Rheoli Eurochild
- Rhwydwaith Partneriaid Cenedlaethol Eurochild (NPN)
- Grŵp Llywio Cyfranogiad Eurochild
- y Gynghrair Tlodi Bwyd
- Grŵp y Glymblaid Fuel Tanwydd
- Grŵp Rhanddeiliaid Hawliau Dynol
- Fforwm Rhyngwladol er Lles Plant
- Grŵp Llywio Mesur y Mynydd
- Fforwm y Gwasanaeth Cyngor Ariannol (MAS) Cymru
- Y Ganolfan Genedlaethol dros Ymchwil i Iechyd a Llesiant y Boblogaeth NCPHWR
- Grŵp Ymgynghorol NEA Cymru
- Bwrdd Chwarae Cymru
- Grŵp Llywio Cymru Well Wales
- Grŵp Tasg Glasoed Cymru Well Wales
- Bwrdd Rhaglen Cydweithredol y 1000 Diwrnod Cyntaf
- Bwrdd Rhanddeiliaid Gwybodaeth Iechyd i Rien
- Grŵp Llywio Cenedlaethol Adolygu Marwolaethau Plant
- Cyfarfod Rhwydwaith Cyfranogiad Rhanbarthol
- Coleg Brenhinol Paediatreg ac Iechyd Plant
- Grŵp Llywio Gofal a Chymorth yn y Cartref
- Grŵp Barnu Acoladau Cydmeithasol Gofal Cymdeithasol Cymru
- Rhwydwaith Rhieni De Cymru
- APPG ar Plant yng Nghymru
- Grŵp Trawsbleidiol ar Blant a Phobl Ifanc
- Grŵp Trawsbleidiol Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar Dlodi Tanwydd ac Effeithlonrwydd Ynni
- Grŵp Trawsbleidiol ar Anabledd
- Grŵp Trawsbleidiol ar Blant sy'n Derbyn Gofal
- Rhwydwaith Hawliau Plant y DU
- Clymblaid y DU ar Hawliau Plant
- Grŵp Ymgynghorol Polisi Lleisiau o Ofal
- Bwrdd Ymddiriedolwyr Lleisiau o Ofal
- Fforwm Polisi Cydffederasiwn GIG Cymru
- Bwrdd WCVA
- Fforwm Cymdeithas Sifil Brexit WCVA
- Clymblaid Cydraddoldeb a Hawliau Dynol WCVA
- Clymblaid Ffoaduriaid Cymru
- Cyfarfod Rhwydwaith Cyfranogiad Rhanbarthol

Ymateb i ymgynghoriadau ac ymchwiliadau

Mae Plant yng Nghymru yn dylanwadu ar bolisi drwy ymateb i ymgynghoriadau ac ymholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol. Mae ein mewnbwn ni'n sicrhau bod lleisiau'r sector plant yn cael eu clywed gan y bobl sy'n gwneud penderfyniadau. Yn ystod 2018-19, gwnaethom ni ymateb i'r ymgynghoriadau ac ymholiadau canlynol:

Cryfhau Llywodraeth Leol: Cyflawni dros Ein Pobl

Cefnogodd Plant yng Nghymru gynigion Llywodraeth Cymru am lai o awdurdodau lleol a rhai mwy o faint, y byddai ganddyn nhw'r gallu i gyflenwi gwasanaethau'n fwy effeithlon. Rydym yn cytuno y dylai Llywodraeth Cymru ddarparu eglurdeb am ôl troed llywodraeth leol yn y dyfodol.

Ymholiad ar oblygiadau Brexit ar gydraddoldeb a hawliau dynol

Cafodd yr ymchwiliad hwn ei gynnal gan y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Chymunedau a'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol. Esboniodd Plant yng Nghymru bryderon rydym wedi eu nodi gan gynnwys erydu hawliau sylfaenol, a phwysigrwydd sicrhau bod lleisiau plant yn cael eu clywed.

Gwasanaethau Maethu: Gweithredu fframwaith rheoleiddio newydd

Cyhoeddodd Plant yng Nghymru ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru a edrychodd ar gynigion i ddisodli Rheoliadau Gwasanaethau Maethu (Cymru) 2003. Amlygodd ein hymateb yr angen i sicrhau argaeledd gwasanaethau eiriolaeth annibynnol i blant a phobl ifanc, a hefyd y dylai Gweithdrefnau Amddiffyn Cenedlaethol gael eu cynnwys.

Meini prawf cymhwyster diwygiedig am brydau ysgolion am ddim yng Nghymru oherwydd cyflwyniad Credyd Cynhwysol Edrychodd yr ymgynghoriad hwn ar feini prawf cymhwyster am brydau ysgol am ddim yng Nghymru. Cododd Plant yng Nghymru ac ECPN bryderon am feini prawf cymhwyster, gan eu bod yn ei gwneud yn ofynnol i aelwydydd incwm isel fod yn derbyn budd-daliadau. Gallai hyn olygu bod plant yn mynd heb y pryd ysgol am ddim er gwaethaf angen amlwg.

RISCA 2016: Gweithrediad Cyfnod 3 – Gwasanaethau Eiriolaeth Rheoleiddiedig

Cefnogodd Plant yng Nghymru reoleiddio gwasanaethau eiriolaeth proffesiynol annibynnol ac ymgorffori'r Safonau Cenedlaethol diwygiedig am Ddarparwyr Eiriolaeth annibynnol i mewn i'r fframwaith. Cyhoeddom ni ymateb ar ran Grŵp Darparwyr Eiriolaeth Cymru Gyfan.

Eithriadau Treth Gyngor i Bobl sy'n Gadael Gofal

Cytunodd Plant yng Nghymru â chynlluniau Llywodraeth Cymru i ddarparu cefnogaeth ychwanegol i bobl sy'n gadael gofal drwy eu heithrio rhag y Dreth Gyngor, gan gynnwys y sawl a oedd yn derbyn gofal mewn rhannau eraill o'r DU. Byddai hyn yn gwneud cymorth yn gyson ledled Cymru.

Cytunom ni hefyd y dylai hyn ddechrau yn 18 oed a dod i ben yn 25 oed.

Isafbris am Alcohol

Yn ein hymateb i'r ymgynghoriad hwn, ailadroddodd Plant yng Nghymru ein cefnogaeth am isafbris am alcohol fel ymyrraeth iechyd gadarnhaol sy'n cefnogi dull hawliau plant. Rydym yn cytuno bod y cynnig am Isafswm Pris Uned o 50c yn briodol, yng ngoleuni'r dystiolaeth a gyflwynwyd.

Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru

Edrychodd yr ymgynghoriad hwn ar Ddangosyddion arfaethedig ar gyfer Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019. Awgrymodd Plant yng Nghymru y dylai'r canlynol fod yn flaenoriaethau allweddol: incwm isel aelwydydd; pwysau afiach ymhlith plant; addysg a sgiliau yn y blynyddoedd cynnar; mynediad i fannau gwyrdd naturiol a mynediad i fand eang cyflym iawn. Hefyd amlygom ni ddangosyddion sy'n effeithio'n arbennig ar blant fel gwasanaethau a'r amgylchedd ffisegol.

Newidiadau i gyllid myfyrwyr o flwyddyn academaidd 2019 i 2020

Cyhoeddodd Plant yng Nghymru ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar drefniadau cyllid myfyrwyr. Croesawodd ein hymateb y categori cymhwyster newydd arfaethedig i'r sawl sydd â chaniatâd Adran 67 i aros yn y DU, a fyddai'n gadael i'r sawl a elwir yn "blant Dubs" gael mynediad i gymorth myfyrwyr.


Fframwaith rheoleiddio newydd am wasanaethau mabwysiadu

Canolbwyntiodd ymateb Plant yng Nghymru i'r ymgynghoriad hwn ar waith IRM Cymru. Nid yw'r nifer presennol o geisiadau i IRM Cymru yn cyfiawnhau'r broses, ac mae'n anodd recriwtio a chadw pobl sydd â'r sgiliau i fod yn aelodau panel. Gwnaethom ni awgrymu y gallai panel mabwysiadu rhanbarthol arall neu ADM gymryd lle'r gwaith mae IRM Cymru yn ei wneud a phorthi'n ôl i'r asiantaeth am y penderfyniad terfynol.

Canllawiau statudol drafft i gyrrff llywodraethu ysgolion am bolisiau gwisg ysgol ac ymddangosiad.

Cefnogodd Plant yng Nghymru ac ECPN Cymru gynigion am ganllawiau statudol am fforddwydd sy'n cael eu hystyried wrth bennu polisiau gwisg ysgol mewn ysgolion. Mae cost gwisg ysgol yn cael ei hadrodd fel problem yn aml i deuluoedd incwm isel a rhieni i fwy nag un plentyn oedran ysgol.

Plant, pobl ifanc, teuluoedd a gweithlu mwy gwybodus



Mae Plant yng Nghymru yn darparu gwasanaeth gwybodaeth i'w aelodau, gyda'r newyddion diweddaraf ac adnoddau ar ddatblygiadau yn y sector plant:

Gwefan Plant yng Nghymru

Mae gwefan Plant yng Nghymru, sydd ar gael yn www.childreninwales.org.uk, yn cynnwys newyddion a gwybodaeth am ddatblygiadau yn y sector plant. Mae adran Polisi y wefan yn cynnwys diweddariadau am ddeddfwriaeth a datblygiadau eraill sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc yng Nghymru a'r DU.

Mae'r wefan yn arf o bwys ar gyfer rhannu gwybodaeth a chaiff ei diweddarau'n ddyddiol gyda gwybodaeth bolisi, adnoddau a newyddion. Yn ystod 2018-19, derbyniodd y wefan 289,783 o ymweliadau â'i thudalennau yn gyfan gwbl.

Gwefan Cymru Ifanc

Mae gwefan Cymru Ifanc, a welir yn www.youngwales.wales, yn cefnogi ein gwaith cyfranogiad. Mae'n ganolbwynt gwybodaeth am y gwaith sy'n cael ei wneud gan fforymau ieuenctid, ysgolion, sefydliadau partner ac unigolion ledled Cymru. Yn ogystal mae'r wefan yn gadael i ni rannu gwybodaeth am waith Cymru Ifanc a chyfleoedd i bobl ifanc gymryd rhan a mynnu bod eu lleisiau'n cael eu clywed.

Cylchgrawn Plant yng Nghymru

Mae cylchgrawn Plant yng Nghymru yn cael ei gyhoeddi'n chwarterol ac yn cynnwys erthyglau ar bynciau pwysig, yn ogystal â'r newyddion diweddaraf oddi wrth Plant yng Nghymru a'n haelodau. Mae'n cynnwys erthyglau manwl a chyfweiliadau am bynciau pwysig a cholofnau rheolaidd gan Gomisiynydd Plant Cymru a MEIC Cymru.

Eleni, trafododd y cylchgrawn ystod eang o bynciau gan gynnwys ymchwil oddi wrth y Ganolfan Genedlaethol Ymchwil Iechyd a Llesiant y Boblogaeth; deall datblygiad plant LGBTI; tlodi plant a theuluoedd; prosiect Mesur y Mynydd; a Brexit a hawliau plant.

Mae modd lawrlwytho'r cylchgronau o www.childreninwales.org.uk/publications/magazine

Gwasanaethau briffio

Mae Plant yng Nghymru yn cynhyrchu nifer o bapurau briffio a newyddleni i aelodau a rhwydweithiau.

Mae ein papur briffio electronig i aelodau yn cael ei gylchredeg bob wythnos ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'n haelodau am y datblygiadau polisi a'r newyddion diweddaraf. Mae newyddlen Cymru Ifanc yn cael ei dosbarthu'n fisol gyda'r newyddion a gwybodaeth ddiweddaraf i bobl ifanc a gweithwyr cyfranogiad.

Rydym ni'n dosbarthu e-briffio misol hefyd am Rwydwaith Dileu Tlodi Plant.

Cyfrngau cymdeithasol


Mae Plant yng Nghymru yn defnyddio Twitter i hyrwyddo ei weithgareddau ac adnoddau, yn ogystal â pholisi a dogfennau newydd drwy ddefnyddio'n cyfrifon, @childreninwales a @plantynghymru.

oedd gan gyfrif @childreninwales 7507 o ddilynwyr ar ddiwedd Mawrth 2018, ac roedd gan gyfrif @plantynghymru 1036 o ddilynwyr. Hefyd mae gan Cymru Ifanc gyfrif Twitter ar wahân, @YoungwalesCIW yr oedd ganddo 3431 o ddilynwyr ar ddiwedd y flwyddyn.

Mae gwybodaeth yn cael ei hyrwyddo hefyd ar ein tudalennau Facebook ar gyfer Plant yng Nghymru a Cymru Ifanc, ac ar Instagram @YoungWalesCIW

Desg gymorth a gwasanaethau arwyddbostio

Mae gan Plant yng Nghymru wasanaeth gwybodaeth ac arwyddbostio ar gyfer aelodau'r cyhoedd a gweithwyr proffesiynol yn y sector plant. Yn ystod 2018-19 rhoddod ni gyngor ar amrediad eang o faterion gan gynnwys gwasanaethau eiriolaeth, diogelu, darpariaeth gofal plant, gofal gan berthnasau, ac addysg.



Cynadleddau a digwyddiadau



Catriona Williams OBE, Prif Weithredwr, gydag Amy-Claire Davies, yng Nghynhadledd Flynyddol Plant yng Nghymru

O Dlod i Ffyniant: Trechu Tlodi Plant yng Nghymru

Gweithiodd Plant yng Nghymru gyda Groundwork Gogledd Cymru a Chyngor Gwynedd i greu dau ddigwyddiad yn y gogledd ym mis Ebrill 2018 ym Mangor a Wrecsam. Rhoddodd y digwyddiadau gyfle i gynrychiolwyr ddod ynghyd i siarad am heriau trechu tlodi yng ngogledd Cymru, rhannu arfer da ac archwilio beth yn fwy all gael ei wneud. Roedd y digwyddiadau'n gymysgedd o gyflwyniadau byr a thrafodaethau bord gron ar themâu fel gwaith partneriaeth, ymgysylltu a chyfranogiad, a chynnaladwyedd.

Fforwm Blynyddol Plant yng Nghymru yn Eisteddfod Genedlaethol 2018

Cynhaliodd Plant yng Nghymru Fforwm Blynyddol yn yr Eisteddfod Genedlaethol ar 8 Awst 2018, yng Nghaerdydd. Yn y digwyddiad hwn, rhoddodd Mark Drakeford, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid ar y pryd, y newyddion diweddaraf am Brexit a'i effaith bosibl ar blant, pobl ifanc a theuluoedd Cymru. Rhybuddiodd Ysgrifennydd y Cabinet y bydd unrhyw fersiwn o Brexit yn gwneud Cymru a'r DU yn dlotach, a bod yr effeithiau economaidd eisoes yn cael eu teimlo; disgrifiodd ef y peth fel gweithred o hunan-niweidio, sydd hefyd yn ein gwneud yn llai diogel. Dywedodd mai'r peth pwysig yw cyfyngu'r niwed a bod Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar ffurf, yn hytrach na ffaith, Brexit.

Cynhadledd flynyddol 'Y Plentyn Cyfan'

Cynhaliodd Plant yng Nghymru ein Cynhadledd Flynyddol ar 3 Hydref 2018. Daeth 116 o gynadleddwyr i'r digwyddiad, a ganolbwyntiodd ar ddull 'plentyn cyfan' at feithrin cydnherthedd a helpu plant a phobl ifanc i ddelio â'r problemau yn eu bywydau.

"Roedd y siaradwyr yn hynod o wybodus ac yn ddiddorol iawn!"

Cynadleddwr yn y Gynhadledd Rhianta, 24th Tachwedd 2018

Huw Irranca-Davies AM, y Gweinidog dros Blant, Gofal Cymdeithasol a Phobl Hŷn ar y pryd, a roddodd y brif araith gan amlinellu ymagwedd Llywodraeth Cymru at ddarparu gwasanaethau. Dilynwyd hyn gan gyflwyniadau ar ymchwil ac arfer presennol; addysg ac iechyd; pwysigrwydd ei chael hi'n gywir yn y cyd-destun presennol; a chodiad hiliaeth a phwysigrwydd cydlyniant cymdeithasol. Rhoddodd y cyflwyniad olaf oddi wrth Barnardo's Cymru enghreifftiau o sut mae integreiddio gwasanaethau. Cynhwysodd y digwyddiad farchnadle a sesiwn panel hefyd.

Amser Holi Brexit Pobl ifanc

Ar 24 Hydref 2018, daeth Cymru Ifanc â phobl ifanc ynghyd o bob rhan o Gymru yn y Senedd i ofyn cwestiynau i banel o arbenigwyr a oedd yn cynnwys y Gweinidog dros Blant, Gofal Cymdeithasol a Phobl Hŷn ar y pryd am Brexit. Cafodd y digwyddiad ei gadeirio gan James Williams o BBC Cymru Wales.



Mae'r panel yn ystyried cwestiynau oddi wrth bobl ifanc yn nigwyddiad Amser Holi Brexit

Gofynnodd pobl ifanc gwestiynau am faterion fel cyfleoedd i weithio ac astudio tramor; ac edrychant ar yr heriau i swyddi, yr economi a chydlyniant cymdeithasol, yn ogystal â cyfleoedd i Gymru yn y dyfodol.

Roedd y Panel yn cynnwys Huw Irranca-Davies AM, Y Gweinidog dros Blant, Gofal Cymdeithasol a Phobl Hŷn ar y pryd; Ruth Combs, Pennaeth Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru; Meri Huws, Comisiynydd y Gymraeg; Mari Arthur, Cyfarwyddwr Sustain Cymru a Dr Dave Williams, cynghorydd CAMHS i Lywodraeth Cymru a Chadeirydd Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan.

Cynhadledd Cymorth Rhianta a Theuluoedd 2018: Cefnogi Rhieni yn eu Harddegau a Rhieni Arddegwyr Canolbwyntiodd Cynhadleddau Cymorth Rhianta a Theuluoedd 2018 Plant yn Nghymru ar rieni yn eu harddegau a rhieni arddegwyr. Cafodd un gynhadledd ei chynnull yng Nghaerdydd ar 18 Hydref 2018 a chynhaliwyd digwyddiad tebyg ym Mangor ar 22 Tachwedd 2018.

Ystyriodd y cynadleddwyr bolisi, ymchwil ac arfer i gefnogi arddegwyr drwy feichiogrwydd a bod yn rhieni, gan edrych ar yr ystyriaethau i rieni arddegwyr. Thema allweddol oedd sut i sicrhau bodloni anghenion rheini sydd wedi eu hymylu neu'n hawdd eu niweidio.

Roedd y prif siaradwyr yn cynnwys yr Athro John Coleman OBE, Prifysgol Swydd Bedford, Alison Hadley OBE, Cyfarwyddwr y Gyfnewifa Wybodaeth Beichiogrwydd Arddegwyr ym Mhrifysgol Bedford, a Louise Marshall, Arweinydd Rhaglen Iechyd y Cyhoedd i Blant a Phobl Ifanc ym Manceinion.



Pobl ifanc yn rhannu eu syniadau am lesiant yng Nghynhadledd Ieuenctid Iechyd



Cynadleddwyr yn ystod gweithdy yn ein cynhadledd rhianta

Uwchgynhadledd Ieuenctid Iechyd y Cyhoedd Mynychodd 110 o bobl ifanc uwchgynhadledd ieuenctid iechyd y cyhoedd a gynhaliwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru a menter gyfranogi Plant yng Nghymru, Cymru Ifanc, yng Nghaerdydd ar ddechrau Rhagfyr 2018.

Yn y digwyddiad daeth pobl ifanc ynghyd o bob rhan o dde Cymru i drafod iechyd y cyhoedd. Cafodd pwrpas iechyd y cyhoedd, ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar unigedd ac ynysigrwydd cymdeithasol a chynllun Llysgenhadon Ifanc Iechyd Cyhoeddus Cymru eu trafod. Gofynnwyd i bobl ifanc sut dylai'r cynllun gael ei redeg yn eu barn nhw, a chafodd eu hawgrymiadau eu casglu gan Iechyd Cyhoeddus Cymru.


Cymerant ran hefyd yng ngweithdai ACE lle trafodwyd pa oedolion roeddent yn gallu ymddiried ynddynt am gefnogaeth, siarad am ba mor gydnerth oeddent, a chreu uwcharwyr i'w helpu i fod yn fwy cydnerth. Cafodd y digwyddiad yng Nghaerdydd ei ragflaenu gan ddigwyddiad tebyg yn Llanrwst, Conwy.

Cynhadledd ROCK

Hwylusodd Plant yng Nghymru Gynhadledd Flynyddol Hawliau'r Plentyn (ROCK) 2018 a ddigwyddodd yng Nghaerdydd ar 12 Rhagfyr 2018. Mae ROCK yn glymblaid o sefydliadau gwirfoddol ac unigolion o bob rhan o'r DU yn pwyso am ymgorffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC) yn llawn yng nghyfraith y DU.

Daeth y gynhadledd â bron i 100 o gynrychiolwyr a siaradwyr ynghyd o'r DU ac Ewrop i edrych ar ddatblygiadau sy'n digwydd ym mhob gwlad i sefydlu UNCRC mewn cyfraith a pholisi. Cafodd y digwyddiad ei drefnu gan Plant yng Nghymru mewn partneriaeth ag aelodau Grŵp Llywio ROCK. Cynigiodd y rhaglen gyfle i arbenigwyr hawliau plant a sylwebwyr amlygu cynnydd a chyfleoedd y dyfodol am amddiffyniadau cyfreithiol pellach i blant.

Hyfforddiant



Bu 2018-19 yn flwyddyn brysur a chynhyrchiol arall i Adran Hyfforddiant Plant yng Nghymru. Fel ag erioed rydym wedi ceisio cyd-fynd â'r tueddiadau a'r anawsterau cyfredol sy'n wynebu plant, pobl ifanc a theuluoedd.

I'r perwyl hwn, rydym wedi ymateb i geisiadau ein haelodau, drwy ddatblygu a chynnal hyfforddiant newydd ac addasu hyfforddiant sydd eisoes yn bod. Mae'r cyrsiau hyn wedi ymdrin â Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, Llinellau Sirol: Gangiau, Cyffuriau a Chamfanteisio'n Droseddol ar Blant, Datblygiad Plant ac yn arbennig datblygiad yr ymennydd ac ymatebion hormonaidd i Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, Deall Trawsrywioldeb a Datblygiad Plant, Rhywedd a Rhywioldeb. Mae Ymwybyddiaeth Ofalgar wedi cael ei darparu wrth i sefydliadau chwilio am atebion ar gyfer y plant a phobl ifanc maent yn eu cefnogi a'u staff.

Ein gwaith craidd o hyd yw Diogelu Llesiant Plant a Phobl Ifanc ac ymateb i geisiadau penodol mewn perthynas â hyn fel iechyd meddwl a hunan-niweidio a hunanladdiad. Rydym wedi datblygu diwrnod sy'n edrych yn unsydd ar effaith esgeulustod.

Bu ceisiadau cyson am ein hyfforddiant ar Gamddefnydd Sylweddau gan Rien, a'n cyrsiau Cyfweld Ysgogol.

Rydym wedi parhau i ddatblygu'n cyrsiau hawliau plant a chyfranogiad gan gynnig hyfforddiant am ddim ar draws Cymru gyfan. Rydym wedi datblygu cwrs 'hyfforddi'r hyfforddwr' i alluogi cyfranogwyr i raeadu hyfforddiant o fewn eu hawdurdod lleol.

Mae ein hyfforddiant Sgyrsiau am Beth Sy'n Bwysig sy'n paratoi'r ffordd i staff ymarfer rhan hon Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant wedi aros yn boblogaidd. Roeddem wrth ein bodd i gefnogi Senedd leuenctid newydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru drwy hyfforddi eu staff am ymgysylltu a chyfranogiad plant a phobl ifanc.

Mae ein gwaith dan contract yn aros yn gryf, gan gynnwys hyfforddiant ar Fesur Canlyniadau Meddal, Ymddygiad Arddegwyr, Diogelwch ar y Rhyngwyrdd, Gwaith Stori Bywyd, Sut i Roi Gwybodaeth Anodd i Blant, Awtistiaeth wrth Aeddfedu, LGBT, Gweithio gyda Rhieni Anghydweithredol ac Eiriolaeth.

Edrychwn ymlaen at y flwyddyn o'n blaen pan fyddwn yn gweithio gyda Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus, i ddatblygu hyfforddiant ynghylch y Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol, Iechyd Meddwl y Glasoed, Diogelu Oedolion a Throseddau Cyllell.

Gallwch ddysgu may am ein hyfforddiant a gweld ein rhestr lawn o gyrsiau hyfforddiant yn www.childreninwales.org.uk/training.

"Hyfforddiant ardderchog - rhyngweithiol iawn a defnydd da o weithgareddau!"

*Cynadleddwyr o Cartrefi Cymru,
Cwrs Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant
Ebrill 2018*

Llywodraethu



Dr Dave Williams, Cadeirydd Bwrdd Ymddiriedolwyr a Chyngor Polisi Plant yng Nghymru

Mae Plant yng Nghymru yn cael ei reoli gan Fwrdd Ymddiriedolwyr sy'n ymdrin â chyllid a llywodraethu'r sefydliad. Mae'r Bwrdd Ymddiriedolwyr yn cynnwys 12 aelod, y mae naw ohonynt yn cael eu hethol o aelodaeth y sefydliad a thri arall yn cael eu penodi. Gall Ymddiriedolwyr ychwanegol gael eu cyd-ethol i'r Bwrdd am gyfnod o un flwyddyn. Mae Ymddiriedolwyr yn gwasanaethu am ddau dymor o dair blynedd yr un.

Aelodau'r Bwrdd Ymddiriedolwyr yn ystod 2018-19 oedd:

- Dr David Williams, Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan (Cadeirydd)
- Kara Williams (tan Hydref 2018) (Trysorydd)
- Suman Bhogal (o Ragfyr 2018 ymlaen) (Trysorydd)
- Ann Shabbaz, Hafan Saff Cyf
- Hannah Williams, Hospis Teuluol Tŷ Hafan
- Jane Newby, Prifysgol De Cymru
- Yr Athro David Egan, Prifysgol Metropolitan Caerdydd
- Yr Athro Jonathan Scourfield, Ysgol Gwyddorau Cymdeithasol Caerdydd
- Dr Sarah Jones (tan Hydref 2018)
- Sarah Crawley, Barnardo's Cymru
- Bethan Webber, Home Start UK (o Hydref 2018

ymlaen)

- Dr Mike Shooter
- Diane Daniel, TGP Cymru
- Dr Nia John, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
- Cherrie Bija, Faith in Families (o Ragfyr 2018 ymlaen)
- Athro Emeritws Patrick Thomas

Cyngor Polisi

Mae Cyngor Polisi Plant yng Nghymru yn gwneud argymhellion am faterion polisi plant a phobl ifanc i'r Bwrdd Ymddiriedolwyr, ac yn helpu i siapia blaenoriaethau a gwaith y sefydliad.

Mae Ymddiriedolwyr Plant yng Nghymru yn cael eu gwneud yn aelodau'r Cyngor Polisi yn awtomatig.

Corff Cynrychioliadol (a benodir, hyd at 10 aelod)

- ACPO
- ADEW (a gynrychiolir gan Pierre Bernhard Grout, WLGA)
- ADSS
- Cydffederasiwn y GIG
- Iechyd Cyhoeddus Cymru (a gynrychiolir gan Sarah Jones)
- Coleg Brenhinol Paediatreg ac Iechyd Plant yng Nghymru (a gynrychiolir gan Dr Nia John)
- WLGA (a gynrychiolir gan Stewart Blythe, Catherine Davies, WLGA)

Aelodau Etholedig

- Brigitte Gater, Action for Children Gweithredu dros Blant
- Deborah Jones, Lleisiau o Ofal (Cymru)
- Des Mannion, NSPCC Cymru
- Dr Susan Evans, Prifysgol Bangor a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
- Gwilym Roberts, Relate Cymru
- John Gallanders, AVOW
- Mary Powell-Chandler, Achub y Plant
- Sharon Lovell, NYAS
- Mike Greenaway, Chwarae Cymru
- Rocio Cifuentes, EYST
- Lindsay Watkins, Ysgol Gynradd Millbrook
- Rachel Shaw
- Uzo Iwobi, Cyngor Hil Cymru

Sylwedyddion

- CAFCASS Cymru
- Llywodraeth Cymru
- Comisiynydd Plant Cymru
- Y Loteri Fawr
- Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid

Aelodaeth

Mae Plant yng Nghymru yn cynnig cynllun aelodaeth i unigolion a sefydliadau sy'n ymddiddori mewn gwella bywydau plant, pobl ifanc a theuluoedd yng Nghymru.

Daw aelodau o'r trydydd sector, a'r sectorau statudol a phreifat gan gynnwys awdurdodau lleol, byrddau iechyd, sefydliadau'r trydydd sector, adrannau prifysgol, ysgolion, meithrinfeydd, canolfannau teuluol ac unigolion.

Yn ystod 2018-19, roedd gan Plant yng Nghymru 196 o aelodau, a oedd yn cynnwys 149 o sefydliadau a 47 o aelodau unigol. Cofrestrodd 11 unigolyn arall, sy'n gweithio i aelodau sefydliadol, am aelodaeth atodol er mwyn iddynt dderbyn gwybodaeth yn uniongyrchol.


Hoffem fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i'n haelodau am eich cefnogaeth barhaus.

BRAND NEW SPECIAL OFFER FOR 2019.

CHILDREN IN WALES' MEMBERSHIP SCHEME WILL OFFER NURSERIES, SCHOOLS AND COLLEGES:

- Access to a Wales-wide network of both professionals and children and young people
- Briefings on current matters of relevance to education such as:
 - The Whole School Approach to Emotional Well-being and Mental Health
 - Additional Learning Needs
 - Children's Rights and the UNCRC
 - Children's participation
 - The New Curriculum - especially child well-being
 - Family Support & Parenting
- Implications of the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015
- Implications of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014
- Adverse Childhood Experience (ACEs)
- A quarterly magazine
- Weekly policy briefing
- Annual Education Network meeting
- Joint training sessions for cluster schools
- Discounts to events & training courses
- The opportunity for staff, young people and children to get involved in our Young Wales participation initiative

HALF PRICE OFFER OF £50 FOR THE NEXT YEAR, INSTEAD OF £100



Crynodeb ariannol

Gwariant		
Plant, Pobl ifanc, Teuluoedd & Gweithlu wedi eu cysylltu'n well	£348,363	25.8%
Dylanwadu ar Ymarfer, Datblygiad Polisi ac Ymchwil drwy Gynrychiolaeth ac Ymgynghori	£380,165	28.2%
Plant, Pobl ifanc, Teuluoedd & Gweithlu mwy Gwybodus	£488,244	36.3%
Gwasanaethau Cefnogi Aelodau	£62,049	4.6%
Llywodraethu	£69,065	5.1%
Cyfanswm	£1,344,559	100%
Incwm		
Plant, Pobl ifanc, Teuluoedd & Gweithlu wedi eu cysylltu'n well	£346,814	26.3%
Dylanwadu ar Ymarfer, Datblygiad Polisi ac Ymchwil drwy Gynrychiolaeth ac Ymgynghori	£355,872	27.0%
Plant, Pobl ifanc, Teuluoedd & Gweithlu mwy Gwybodus	£476,233	36.1%
Gwasanaethau Cefnogi Aelodau	£58,580	4.4%
Llywodraethu	£80,548	6.1%
Cyfanswm	£1,318,046	100%

